**Dyddiad cyhoeddi:** 10 Ionawr 2022

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

> *"Ymddangosodd prif weithredwr Trafnidiaeth Cymru, James Price, ar raglen Politics on Sunday BBC Wales ar ddydd Sul (Rhagfyr 12) a dywedodd y byddai'r corff trafnidiaeth yn edrych ar "newid" amserlenni yn dibynnu ar ba mor boblogaidd yw rhai gwasanaethau.*
>
> *Allwch chi ddweud wrthyf pa wasanaethau sydd mewn perygl o gael eu newid oherwydd nad oes digon o bobl yn eu defnyddio?"*

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydyn ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Nid oes unrhyw wasanaethau i'w cwtogi o ganlyniad i'r ffaith nad oes digon o bobl yn eu defnyddio. Mae'n hanfodol bod Trafnidiaeth Cymru yn gallu ymateb i newidiadau yn y galw gan deithwyr ar draws y rhwydwaith, cynnal cydlyniant cymunedau Cymru a'r Gororau a darparu gwasanaeth dibynadwy. Mae patrymau teithio wedi newid yn sylweddol ers y pandemig, ac mae hyn yn parhau i newid ac esblygu. Er mwyn lliniaru hyn cymaint â phosibl, mae Trafnidiaeth Cymru yn mynd ati i gynllunio cerbydau ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau prysuraf a darparu bysiau i ategu trenau os oes angen. Mae rhagor o wybodaeth am ein cynllun tymor canolig i dymor hir ar gael yma.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

## Trafnidiaeth Cymru

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".